

GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT 2025
JOHN SUMMERS WAY, GLAN YR AFON, HEOL OAK (CYFFORDDIAU GOGLEDD A DE)
FFORDD ANENWEDIG, YSTAD ANENWEDIG A CHYFYN ANENWEDIG, GARDEN CITY,
DEESIDE

GWAHARDD A CHYFYNGIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, ar 04 Mehefin 2025, wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 9 a 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, wedi gwneud Gorchymyn Arbrofol sydd yn:

1. Cyflwyno 'Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar rannau o John Summers Way, Glan Yr Afon, Heol Oak (Cyfforddiau Gogledd A De), Ffordd Anenwedig, Ystad Anenwedig A Chyfyfn Anenwedig, Garden City, Deeside

Mae copi o'r Gorchymyn, a ddaw'n weithredol ar 13 Mehefin 2025, ynghyd â chynlluniau'n dangos y ffyrdd y bydd y Gorchymyn yn effeithio arnynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, i'w gweld yn Nghanolfan Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah CH5 4HA. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.sirfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost i Transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Bydd y Cyngor yn ystyried maes o law a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. O fewn cyfnod o 6 mis wedi i'r Gorchymyn ddod i rym neu, os yw'r Gorchymyn yn cael ei addasu neu ei amrywio wedi hynny, wedi i'r addasiad neu'r amrywiad hwnnw ddod i rym (pa un bynnag yw'r hwyraf), gall unrhyw un wrthwynebu gwneud y Gorchymyn i ddibenion y fath barhad amhenodol.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn, a'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod o fewn chwe mis i'r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym, neu'r dyddiad y bydd unrhyw amrywiad neu addasiad. neu'r amrywiad neu'r addasiad diweddaraf, wedi dod i rym, gan nodi cyfeirnod SS/TRO/JB/JSW/2025.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn (a wnaed ar 04 Mehefin 2025) neu unrhyw ddarpariaethau sydd ynddo, ar y sail nad ydynt o fewn y pwerau a roddwyd gan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu ar y sail na chydymffurfiwyd â gofynion y fath ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 04 Mehefin 2025 i'r diben hwnnw.

Dyddiedig dydd Gwener 06 Mehefin 2025

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug CH7 6LG.



GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT
JOHN SUMMERS WAY, GLAN YR AFON, HEOL OAK
(CYFFORDDIAU GOGLEDD A DE) Ffordd Anenwedig, Ystad
ANENWEDIG A CHYFYN ANENWEDIG, GARDEN CITY,
GLANNAU DYFRDWY
(GWAHARDD A CHYFYNGIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG)
2025

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a
Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd Yr Wyddgrug Alltami,
Yr Wyddgrug, CH7 6LG

GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT

JOHN SUMMERS WAY, GLAN YR AFON, HEOL OAK (CYFFORDDIAU GOGLEDD A DE) FFORDD ANENWEDIG, YSTAD ANENWEDIG A CHYFYN ANENWEDIG, GARDEN CITY, GLANNAU DYFRDWY

(GWAHARDD A CHYFYNGIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG) 2025

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

Dyfynnu a Chychwyn

1. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 13 Mehefin 2025 am gyfnod arbrofol o 18 mis a gall gael ei ddyfynnu fel Gorchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint, JOHN SUMMERS WAY, GLAN YR AFON, HEOL OAK (CYFFORDDIAU GOGLEDD A DE) FFORDD ANENWEDIG, YSTAD ANENWEDIG A CHYFYN ANENWEDIG, GARDEN CITY, GLANNAU DYFRDWY (GWAHARDD A CHYFYNGIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG) 2025.
2. Yn unol ag adran 10(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gall y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) os bydd yn ymddangos yn hanfodol i'r Swyddog hwnnw neu honno, er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus a diogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd, neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd a effeithir gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

Dehongliad

3. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron a neilltuwyd iddynt:-

"Mae ystyr "bathodyn person anabl" yr un fath ag y mae yn Rheoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000;

mae ystyr "cerbyd person anabl" yr un fath ag y mae yn Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000;

mae ystyr "disg parcio" yr un fath ag y mae yn Rheoliad 8 yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000;

ystyr "man parcio" yw unrhyw fan parcio ar ffordd a awdurdodir neu a ddynodir gan Orchymyn a wnaed, neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud, dan Ddeddf 1984;

ystyr "Swyddog Gorfodi Sifil" yw person sydd wedi'i gyflogi yn unol ag Adran 76 Deddf 2004 i ymgymryd â'r swyddogaethau a nodir yn y fan honno.

4. Ac eithrio'r hynny a ddarperir yn Erthygl 5 a 6, ni chaiff neb, oni cheir cyfarwyddyd neu ganiatâd gan swyddog yr heddlu yn ei lifrai neu Swyddog Gorfodi Sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y rhan(nau) o'r ffordd neu ymyl(on) y ffordd a nodir yn Atodlen.

5. At ddibenion y Gorchymyn hwn, ystyrir bod cerbyd yn arddangos:-

(a) bathodyn person anabl yn y man perthnasol, os:-

- (i) yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar ddangosfwrdd (dashboard) neu banel deialau (fascia) y cerbyd,
neu
- (ii) os nad oes dangosfwrdd neu banel deialau yn y cerbyd, mae'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn man amlwg ar y cerbyd fel bod blaen y bathodyn yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(b) disg parcio yn y man perthnasol os:

- (i) yw'r disg yn cael ei arddangos ar ddangosfwrdd (dashboard) neu banel deialau (fascia) y cerbyd,
neu
- (ii) os nad oes dangosfwrdd neu banel deialau yn y cerbyd, mae'r disg yn cael ei arddangos mewn man amlwg yn y cerbyd, fel bod y marc, sy'n dangos y cyfnod hwnnw o chwarter awr y dechreuodd cyfnod o aros ynddo, yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

6. Ni fydd unrhyw beth yn Erthyglau 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi

(a) person i fynd i mewn neu allan o'r cerbyd;

(b) nwyddau i gael eu llwytho i neu eu dadlwytho o'r cerbyd;

- (c) i'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at ddiben o'r fath ar unrhyw ffordd arall, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithredoedd canlynol, sef –
 - (i) gweithrediadau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
 - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
 - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu y darnau hynny o ffordd;
 - (iv) gosod, adeiladu, newid neu wneud gwaith atgyweirio ar y darnau hynny o ffordd, neu ar dir wrth eu hymyl, neu mewn perthynas ag unrhyw garthffosydd, prif bibellau, pibellau neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu ar gyfer unrhyw rwydwaith cyfathrebu electronig fel y diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003;
 - (v) gwasanaethu ar ran awdurdod lleol, cwmni cyfleustodau cyhoeddus neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
 - (d) defnyddio'r cerbyd at ddibenion danfon neu gasglu pecynnau post fel y diffinnir yn Adran 125 Deddf Gwasanaethau Post 2000; neu
 - (e) ddefnyddio'r cerbyd at ddibenion brigâd dân, ambiwlans neu'r heddlu.
7. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl, sy'n arddangos bathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd wedi nodi amser dechrau'r cyfnod aros arno) yn y lle perthnasol, aros ar y darnau o ffordd y cyfeirir atynt yn Atodlen am gyfnod heb fod yn hwy na thair awr (heb fod wedi'i wahanu gan gyfnod o lai nag 1 awr rhwng cyfnod blaenorol o aros gan yr un cerbyd ar yr un diwrnod).
8. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.
9. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.
10. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a bennir yn y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a bennwyd mewn unrhyw reoliadau a wnaed neu sydd â grym fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984 neu unrhyw ddeddfiad arall, ac nid ydynt yn rhan-ddirymiad ohonynt.

MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

11. Os gadewir cerbyd ar unrhyw ffordd neu ran o'r ffordd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy.

12. Yn achos cerbyd sy'n destun talu Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil wedyn gyflwyno Rhybudd Talu Cosb yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol dan Ddeddf 2004, yn unol â gofynion Deddf 2004 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wnaed wedi hynny.

ATODLEN Dim Aros ar Unrhyw Adeg Garden City

John Summers Way:- o'i chyffordd â'r B5441 Welsh Road am bellter o 696 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin at y gylchfan newydd.

Ffordd y Dderwen

(y gyffordd ogleddol):- o'i chyffordd â John Summers Way am bellter o 10 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Ffordd y Dderwen

(y gyffordd ddeheuol):- o'i chyffordd â John Summers Way am bellter o 10 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Ystâd ddienw:- o'i chyffordd â John Summers Way am bellter o 10 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Glan yr Afon :- o'i chyffordd gyda John Summers Way am bellter o 10 metr i gyfeiriad gogledd-ddwyrainiol.

Cyffordd Ddienw :- o'i chyffordd â John Summers Way am bellter o 10 metr i gyfeiriad y de-orllewin.

Ffordd Ddienw :- o'i chyffordd gyda John Summers Way am bellter o 10 metr i gyfeiriad y de-orllewin.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN

CYNGOR SIR Y FFLINT

yn y fan hon

ar y 04 diwrnod hwn o Mehefin 2025

ym mhresenoldeb:-

)
) *MBughey*
)
)
)



Y CADEIRYDD

PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)



RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

UWCH GYFREITHIWR



CYNGOR SIR Y FFLINT

GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG – GORCHYMYN ARBROFOL 2025 JOHN SUMMERS WAY, GLAN YR AFON, HEOL OAK (CYFFORDDIAU GOGLEDD A DE) Ffordd ANENWEDIG, YSTAD ANENWEDIG A CHYFYN ANENWEDIG, GARDEN CITY, DEESIDE


DATGANIAD O RESYMAU DROS WNEUD Y GORCHYMYN ARBROFOL

Ar 4 Mehefin 2025, cyflwynodd Cyngor Sir y Fflint Orchymyn Arbrol i gyflwyno gwaharddiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) ar y ffyrdd yn y rhestr uchod.

Bwriad y cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg yw atal parcio rhwystrol, cynnal gwelededd yn y cyffyrdd a sicrhau nad yw'r mynedfeydd i John Summers Way ac oddi yno yn cael eu rhwystro gan gerbydau sydd wedi parcio. Bydd y cyfyngiadau hefyd yn gwella diogelwch cerddwyr drwy gael gwared ar gerbydau wedi'u parcio mewn lleoliadau allweddol, gan leihau tagfeydd a gwella llif traffig yn yr ardal ac o'i chwmpas.


Mae parcio ar gyffyrdd, boed llinellau melyn ar y ffordd neu beidio, yn drosedd ac mae'r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau'n parcio o fewn 10 metr i gyffordd, gellir ystyried hynny'n drosedd a gall Heddlu Gogledd Cymru gymryd camau gorfodi. At hynny, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallen nhw achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bobl ddiamddiffyn sy'n defnyddio'r ffordd yn ogystal â gwella amwynderau yn yr ardal.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug CH7 6LG.

Dydd Gwener 06 Mehefin 2025.



KEY

No Waiting at Any Time (Double Yellow Lines).

ALLWEDDOL

Dim Aros Ar Unrhyw Adeg



Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY:
JB

CHECKED BY:
LS

SCALE:
NTS @ A3

NAT. GRID REF:
N/A

PRELIMINARY		APPROVAL		CONSTRUCTION	
AMENDMENTS:				DATE	

John Summers Way, Glan Yr Afon, Ffordd Denwen, Ffordd Ddienw, Cyffordd Ddienw a Ystâd ddiennw, Garden City John Summers Way, Oak Road, Unnamed Road, Unnamed Junction and Unnamed estate Garden City

Waiting restrictions

Gwaharddiad i Aros

DRAWING NUMBER

SS/JSW/25 101 C1